



pob lwc cymru!



Tîm Cymru 22  
Team Wales 22

1

# Hwrê!

Mae Tîm Cymru yn chwarae pêl-droed yng Nghwpan y Byd! Beth am gynnal gweithgareddau yn eich Grŵp Cymraeg i Blant, Clwb Cwtsh, Cylch Ti a Fi, Cylch Meithrin, Meithrinfa Ddydd, Clwb ar ôl ysgol i ddathlu!



2

Mae Dewin a Doti eisiau chwarae pêl-droed i Gymru ond does gan Dewin ddim cit pêl-droed a does gan Doti ddim pêl 😞! Beth am gynllunio cit pêl-droed i Dewin a phêl i Doti?

- Gofynnwch i'r plant greu dyluniad/addurno/peintio cit pêl-droed addas i Dewin trwy un ai:

- ofyn i blant dynnu llun o Dewin gyda gwisg bêl-droed

- darparu 'mannequins' bach pren a'r plant i ludo defnydd arnynt

- plant i ddylunio crys pêl-droed ar grysiau-t gyda paent defnydd ('fabric paints') ayyb

- Creu amlinelliad o blentyn ar bapur mawr a phawb i greu 'collage' ar y cyd



Tîm Cymru 22  
Team Wales 22



Cefnogiwr gan  
Lywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government

3

Beth am greu pêl i Doti e.e. gyda thoes, neu rowlio hen bapur newydd yn dynn a'i beintio, neu *papier mache*? Ydi'r plant yn gallu taflu eu peli i mewn i focs / cylch ar y llawr neu ydy'r bêl yn gallu rowlio ar y llawr at eu ffrind?



## Dewin a Doti

4

Wyddoch chi fod gan Dewin a Doti ap gyda stori am gêm bêl-droed arni. Chwiliwch am ap Dewin a Doti i ddod o hyd i'r stori, neu mae copi o'r llyfr stori '**Dewin a Doti'n Helpu yn y Gêm Fawr**' ar gael yn y pecyn 'Pob Lwc Cymru!' a anfonwyd i aelodau Mudiad Meithrin yn ddiweddar. Mae modd clywed Siani Sionc yn darllen y stori wrth sganio'r côd qr yma hefyd.



Tîm Cymru 22  
Team Wales 22

<https://youtu.be/4d7EuH60WOI>



5

Beth am gynnal Diwrnod Gwisgo Coch ar 16 Tachwedd a chynnal **Dis-Goch Dewin** a **Doti** fel rhan o wythnos **Dawnsathon Mudiad Meithrin** (14-18 Tachwedd) i godi arian i'r Cylch/Meithrinfa?



6

Beth am greu fideo fer o'r plant yn canu cân 'Pob lwc Cymru!' gan Siani Sionc a'i rhannu ar Trydar/Facebook/Instagram gan ddefnyddio'r hashtag **#TîmCymru22** ac **@mudiadmeithrin**



<https://meithrin.cymru/pel-droed/>

**#Dawnsathon**

**#PobLwcCymru**

**#YmaOHyd**

**#WalGoch**



**Tîm Cymru 22**  
**Team Wales 22**



## 7 Paru sannau pêl-droed

Cymysgwch wahanol barau o sannau pêl-droed (gallwch ofyn i deuluoedd y plant am hen barau) a gofynnwch i'r plant ddod o hyd i'r parau.

Trafodwch liwiau, patrymau, meintiau'r sannau. Gwnewch siart o wahanol liwiau'r sannau – pa liw sannau yw'r mwyaf poblogaidd?



## 8 Dryswch Doti

O diar mae Doti wedi colli ei phêl!...  
pa llyn sy'n arwain at bêl Doti?



Tim Cymru 22  
Team Wales 22

9

Gofynnwch i bêl-droediwr o'ch tîm pêl-droed lleol i ddod i mewn i siarad am chwarae pêl-droed a beth mae'n ei olygu iddyn nhw. Beth am ofyn iddyn nhw ddangos ychydig o symudiadau pêl-droed syml hefyd? Cofiwch fod tîmau pêl-droed merched ar gael hefyd!



## 10 Pasio'r bêl garedig



Beth am greu pêl allan o hen bapur newydd a'i haddurno. Yna pawb i eistedd mewn cylch ar y llawr a chwarae'r gêm pasio'r bêl (debyg i pasio'r parsel) i gerddoriaeth a phan fydd y gerddoriaeth yn stopio mae plentyn sy'n gafael yn y bêl yn dweud rhywbeth caredig wrth y plentyn sydd newydd roi'r bêl iddo a.y.y.b nes mae pob plentyn wedi cael cyfle i ddweud rhywbeth caredig wrth bawb. Trafod sut deimlad oedd dweud rhywbeth caredig, a sut deimlad oedd clywed rhywun yn dweud rhywbeth caredig amdanynt.




Tîm Cymru 22  
Team Wales 22



# 11 Cymharu peli

Casglwch beli o wahanol siapiau a meintiau e.e pêl tennis, pêl rygbi, pêl ping-pong, pêl-droed, pêl golff, pêl griced a.y.y.b. Pa un yw'r bêl fwyaf, lleiaf, drymaf, ysgafnaf, pa rai sydd gyda gwynt ynddyn nhw, pa rai allwch chi ei chwythu ar fwrdd (e.e. pêl ping-pong, pêl draeth). Pa un oedd eu hoff bêl a pham?





## 12 Printio gyda pheli



Casglwch beli o wahanol feintiau, rhwch ddarn mawr o bapur ar y llawr a gadewch i'r plant rowlio pêl mewn paent o wahanol liwiau ac yna eu rowlio ar hyd y papur. Cymharwch y gwahanol batrymau mae gwahanol beli'n ei wneud, a oedd rhai peli'n rowlio'n bellach nag eraill, oedd rhai'n fwy neu'n llai na'i gilydd neu'n drymach/ysgafnach na'i gilydd. Pa un oedd eu hoff batrwm a pham?



Tîm Cymru 22  
Team Wales 22

13

... ac wrth gwrs –  
beth am chwarae  
pêl-droed yn yr  
awyr agored!



## Canllaw Ti a Fi →

Cofiwch hefyd am  
weithgareddau ar  
y thema sydd wedi  
eu nodi yn y llyfryn  
Canllaw Ti a Fi.

Mae adnodd hyfryd sy'n  
cynnwys cân yn yr iaith Ffarsi  
- iaith Iran sef un o'r gwledydd  
sy'n yr un grŵp â Thîm Cymru  
yng Nghwpan y Byd ar gael  
ar ein gwefan – sganiwch y côd  
qr yma i'w weld.

<https://meithrin.cymru/pel-droed/>



Tîm Cymru 22  
Team Wales 22



**mudiad meithrin**  
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

[www.meithrin.cymru](http://www.meithrin.cymru)

@MudiadMeithrin  
/mudiadmeithrin  
@mudiadmeithrin